# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Gwener, 23 Ebrill 2021

**Presennol**: Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd), Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)

Cynghorwyr John Griffith, Bryan Owen, Margaret M Roberts

**Aelodau Portffolio:**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Pobl Ifanc , Llyfrgelloedd a Diwylliant), R G Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid).

**Wrth law**:
Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Pennaeth Gwasanaethau Tai, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth Proffesiwn (HR) a Rheolwr Trawsnewid, Swyddog Hyfforddiant AD (CD), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH**)**

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts, (Aelod Cyfetholedig)

**Hefyd yn bresennol**: Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (Trawsnewid Proses Busnes) (KH), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(9:30 y.b. i 11:00 y.b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 1 **Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| | Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda fel gwirfoddolwr gyda Bwyd Da Môn.<br><br>Bu i'r Cynghorydd Robin Williams (ddim yn aelod o'r pwyllgor) hefyd ddatgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 2 **Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y 16eg o Chwefror a'r 8fed o Fawrth, 2021 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 **Ymateb y Cyngor i Covid-19**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd nodi ymateb y Cyngor i'r |

| | |
|---|---|
| | pandemig ac yn benodol yr ymateb wrth ddiogelu llesiant staff a chymunedau ac effeithiolrwydd y Strategaeth Profi ac Olrhain.<br><br>Gweithred Ychwanegol: Dylid creu Llawlyfr Gwydnwch Cymunedol Ynys Môn i gofnodi'r gwersi a'r arferion da o'r pandemig ar y lefel gymunedol. Dylid cyfeirio at Lawlyfr Gwydnwch Cymunedol Llundain yr LGA ac ymgynghori â'r Grwp Cefnogi Cymunedol am ei fewnbwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Rhaglen Waith**<br>Adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd –<br><br>• Cytuno i fersiwn bresennol y blaen raglen waith ar gyfer 2021/22.<br>• Nodi'r cynnydd hyd yn hyn yn gweithredu'r blaen raglen waith. |